OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1863 (Cy.196)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2006

Wedi'u gwneud	- -	*12 Gorffennaf 2006*
Yn dod i rym	- -	*14 Gorffennaf 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 22, 42(6) a 43(1) o Ddeddf Addysg Uwch 1998(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) (Diwygio) 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 14 Gorffennaf 2006 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Prif Reoliadau" yw Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2006(**2**).

Diwygio'r Prif Reoliadau

3. Diwygir y Prif Reoliadau fel a ganlyn.

4. Yn rheoliad 2(1)—

(a) hepgorer yr is-baragraffau sy'n diffinio'r termau canlynol—

"Cytundeb yr AEE" ("*EEA Agreement*");

"gweithiwr mudol yr AEE"("*EEA migrant worker*");

"Ardal Economaidd Ewropeaidd" ("*European Economic Area*"); a

(**1**) 1998 p. 30; mewnosodwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p. 21), adran 146 ac Atodlen 11, Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6, Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147 a Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adran 42. Diwygiwyd adran 42 ac adran 43 gan Ddeddf Addysg 2002 (p. 32) Atodlen 12. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 44 o Orchymyn Deddf Addysg Uwch 2004 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1833 (Cy.149)(C.79)).

(**2**) O.S. 2006/126 (Cy.19).

"Cytundeb y Swistir" ("*Switzerland Agreement*"); a

(b) yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

"ystyr "benthyciad ffioedd coleg" ("*College fee loan*") yw benthyciad yn unol â rheoliadau a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 22 o'r Ddeddf o ran y ffioedd coleg sy'n daladwy gan fyfyriwr i goleg neu neuadd breifat barhaol Prifysgol Rhydychen neu i un o golegau Prifysgol Caergrawnt;" ac

"mae i "ffioedd" yr ystyr a roddir i "fees" yn adran 41(1) o Ddeddf 2004 ac eithrio yn achos ffioedd coleg;"

5. Yn rheoliad 2, hepgorer paragraffau (2) i (5).

6. Mewnosoder ar ôl paragraff (4) o reoliad 3, y paragraff canlynol—

"(4A) At ddibenion paragraffau (2) i (4), mae unrhyw gyfeiriad at yr Ysgrifennydd Gwladol o ran unrhyw swyddogaeth a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan y Rheoliadau y cyfeirir atynt yn y paragraffau hynny, i'w ddarllen o ran Cymru fel cyfeiriad at—

(a) y Cynulliad Cenedlaethol, yn achos swyddogaeth y cyfeirir ati yn adran 44(1) o'r Ddeddf; neu

(b) y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Ysgrifennydd Gwladol, yn achos swyddogaeth y cyfeirir ati yn adran 44(2) o'r Ddeddf.".

7. Yn rheoliad 4(2)(a), o flaen y geiriau "Atodlen 1" mewnosoder y geiriau "Rhan 2 o".

8. Yn rheoliad 6(4), ar ôl y geiriau "Er gwaethaf paragraff (1)" mewnosoder y geiriau "ac yn ddarostyngedig i baragraff 6(4B).".

9. Ar ôl rheoliad 6(4) mewnosoder—

"(4A) Mae paragraff (4B) yn gymwys i—

(a) myfyriwr cymwys dan y drefn newydd sydd ar gwrs pen-ben o fath a ddisgrifir ym mharagraff (a) neu (b) o'r diffiniad "cwrs pen-ben" yn rheoliad 2;

(b) myfyriwr cymwys dan y drefn newydd—

(i) sydd wedi cwblhau cwrs amser-llawn a grybwyllir ym mharagraff 2 neu 3 o Atodlen 2;

(ii) sydd ar gwrs gradd gyntaf amser-llawn (heblaw gradd gyntaf ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon) na ddechreuodd arno yn union ar ôl y cwrs y cyfeirir ato ym mharagraff (i); a

(iii) nad yw wedi cymryd cwrs gradd gyntaf amser-llawn ar ôl y cwrs y cyfeirir ato ym mharagraff (i) ac o flaen y cwrs presennol;

(c) myfyriwr cymwys dan y drefn newydd—

(i) sydd wedi cwblhau gradd sylfaenol amser-llawn;

(ii) sydd ar gwrs gradd anrhydedd amser-llawn na ddechreuodd arno yn union ar ôl y cwrs y cyfeirir ato ym mharagraff (i); a

(iii) nad yw wedi cymryd cwrs gradd gyntaf amser-llawn ar ôl y cwrs y cyfeirir ato ym mharagraff (i) ac o flaen y cwrs presennol; ac

(ch) myfyriwr cymwys dan yr hen drefn sydd ar gwrs pen-ben o fath a ddisgrifir ym mharagraff (a) a (b) o'r diffiniad o gwrs "pen-ben" yn rheoliad 2.".

10. Ar ôl rheoliad 6(4A) (a fewnosodir gan reoliad 9 uchod), mewnosoder—

"(4B) Er gwaethaf paragraff (1), dim ond ar gyfer grantiau neu fenthyciadau at ffioedd neu grantiau at gostau byw mewn perthynas â'r cwrs presennol am y nifer o flynyddoedd

academaidd sy'n hafal i (D + X)−Pr C y mae myfyriwr cymwys y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddo yn gymwys.".

11. Yn rheoliad 6(9) mewnosoder—

(a) ar ôl paragraff (a)—

"(aa) D yw 3 a nifer y blynyddoedd academaidd sy'n llunio cyfnod arferol y cwrs p'un bynnag yw'r mwyaf;";

(b) ar ôl paragraff (c)—

"(ca) X yw 1 pan oedd cyfnod arferol y cwrs rhagarweiniol yn llai na thair blynedd a phan oedd cyfnod arferol y cwrs rhagarweiniol yn dair blynedd."; ac

(c) ar ôl paragraff (9)(ch)—

"(da) PrC yw'r nifer o flynyddoedd academaidd y treuliodd y myfyriwr ar y cwrs rhagarweiniol ac eithrio unrhyw flynyddoedd yn ailadrodd yr astudiaeth am resymau personol cryf:".

12. Yn rheoliad 7(1), yn lle "baragraff (3)" rhodder "baragraffau (3) a (3A)" a hepgorer y geiriau "neu grant at gostau byw".

13. Yn rheoliad 7(2), yn lle'r geiriau "baragraffau (3) a (4)" rhodder y geiriau "paragraffau (3A) a (4)".

14. Ar ôl rheoliad 7(3) mewnosoder—

"(3A) Os ystyrir bod y cwrs presennol yn gwrs sengl oherwydd rheoliadau 5(4) a 5(5) a'i fod yn arwain at radd anrhydedd gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig yn cael ei rhoi i fyfyriwr cymwys o flaen y radd derfynol neu gymhwyster cyfatebol, ni chaiff y myfyriwr cymwys ei rwystro rhag dod yn gymwys i gael cymorth o dan baragraff (1) neu (2) o ran unrhyw ran o'r cwrs sengl yn rhinwedd y ffaith iddo gael y radd anrhydedd honno.".

15. Yn lle rheoliad 7(4) rhodder—

"Nid yw paragraff (2) yn gymwys—

(a) os yw'r cwrs dynodedig yn arwain at gymhwyster fel gweithiwr cymdeithasol;

(b) os yw'r myfyriwr cymwys i dderbyn unrhyw daliad o dan fwrsari gofal iechyd y cyfrifwyd y swm amdano drwy gyfeirio at ei incwm neu lwfans gofal iechyd Albanaidd y cyfrifwyd y swm amdani drwy gyfeirio at ei incwm o ran unrhyw flwyddyn academaidd o'r cwrs; neu

(c) os yw'r myfyriwr ar gwrs ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon.".

16. Ar ôl rheoliad 7(7) mewnosoder—

"(8) Mae paragraffau (6A) a (6B) o reoliad 18 yn estyn darpariaethau'r rheoliad hwn ynghylch cymhwyster ar gyfer benthyciadau ffioedd a grantiau ffioedd at gostau byw y cyfeirir atynt yn y paragraffau hynny, yn ddarostyngedig i eithriadau penodol.".

17. Yn lle rheoliad 10(2)(a), rhodder y canlynol—

"(a) os bydd un o'r digwyddiadau a restrir yn rheoliad 11C yn digwydd ar ôl diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd y mae'r ceisydd yn gwneud cais am gymorth mewn perthynas â hi, ac os felly rhaid i'r cais gyrraedd y Cynulliad Cenedlaethol o fewn cyfnod o naw mis sy'n dechrau gyda'r diwrnod pan ddigwyddodd y digwyddiad perthnasol;".

18. Hepgorer rheoliad 10(2)(b) ac (c).

19. Ar ôl rheoliad 11, mewnosoder y Rhan newydd sy'n dilyn—

"RHAN 3A

GWNEUD CEISIADAU AM GRANTIAU A BENTHYCIADAU AT FFIOEDD

Cymorth Ffioedd yn Gyffredinol

11A.—(1) Ni chaniateir i grant o dan Ran 4 neu fenthyciad o dan Ran 5 o ran blwyddyn academaidd fod yn fwy na'r ffioedd sy'n daladwy gan y myfyriwr o ran y flwyddyn academaidd honno.

(2) I gael benthyciad o dan y Rheoliadau hyn rhaid i'r myfyriwr ymrwymo mewn contract gyda'r Cynulliad Cenedlaethol.

Myfyrwyr sy'n dod yn gymwys yn ystod blwyddyn academaidd

11B. Os bydd un o'r digwyddiadau a restrir yn rheoliad 11C yn digwydd yn ystod blwyddyn academaidd—

(a) gall myfyriwr ddod yn gymwys i gael grantiau a benthyciadau o dan Rannau 4 neu 5 ar yr amod bod y digwyddiad perthnasol wedi digwydd yn ystod tri mis cyntaf y flwyddyn academaidd; a

(b) nad yw'r cyfryw grantiau a benthyciadau ar gael o ran unrhyw flwyddyn academaidd sy'n dechrau cyn y flwyddyn academaidd pan ddigwyddodd y digwyddiad perthnasol.

Digwyddiadau

11C. Dyma'r digwyddiadau—

(a) mae cwrs y myfyriwr yn dod yn gwrs dynodedig;

(b) pan gydnabyddir bod y myfyriwr, ei briod, ei bartner sifil neu ei riant yn ffoadur neu pan fydd yn dod yn berson sydd â chaniatâd ganddo i ddod i mewn neu aros (fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1);

(c) pan fydd gwladwriaeth yn ymaelodi â'r Gymuned Ewropeaidd os yw'r myfyriwr yn wladolyn o'r wladwriaeth honno neu'n aelod o deulu (fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1) gwladolyn o'r wladwriaeth honno;

(ch) pan fydd y myfyriwr yn dod yn aelod o deulu (fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1) gwladolyn o'r GE;

(d) pan fydd y myfyriwr yn caffael yr hawl i breswylio'n barhaol (fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1);

(dd) pan fydd y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 6(1)(a) o Atodlen 1; neu

(e) pan fydd y myfyriwr yn dod yn blentyn i wladolyn Swisaidd.".

20. Yn y penawdau ar gyfer Rhan 6 a rheoliad 18 ar ôl y geiriau "gostau byw" mewnosoder y geiriau "a chostau eraill".

21. Yn rheoliadau 18(1), 18(2), 18(3), 18(5) ac 18(7) hepgorer y geiriau "at gostau byw" bob tro y maent yn digwydd.

22. Yn rheoliad 18(2) rhodder yn lle'r geiriau "os paragraff 7 yw'r unig baragraff o baragraffau 1 i 8 o Atodlen 1 y mae'r myfyriwr yn syrthio odano", y geiriau "os paragraff 9 yw'r unig baragraff yn Rhan 2 o Atodlen 1 y mae'r myfyriwr yn dod i mewn iddo".

23. Ar ôl rheoliad 18(6) mewnosoder—

"(6A) Yn ddarostyngedig i baragraff (6B), nid oes gan fyfyriwr cymwys yr hawl i gael grant o dan rheoliad 28, 29 neu 30 o ran blwyddyn academaidd cwrs dynodedig os nad oes gan y myfyriwr hawl i gael cymorth perthnasol o ran y flwyddyn academaidd honno.

(6B) Nid yw paragraff (6A) yn gymwys os y rheswm nad oes gan y myfyriwr hawl i gymorth perthnasol yw oherwydd—

(a) mae'n cymryd rhan yng nghynllun gweithredu'r Gymuned Ewropeaidd ar gyfer symudedd myfyrwyr prifysgol a elwir ERASMUS ac mae ei gwrs yn un y cyfeirir ato yn rheoliad 5(1)(ch); ac mae holl gyfnodau astudio yn ystod y flwyddyn academaidd mewn sefydliad y tu allan i'r Deyrnas Unedig; neu

(b) mae'r cwrs gradd yn gwrs hyblyg ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

(6C) Ym mharagraff (6A) ystyr "cymorth perthnasol", mewn achos grant o dan reoliad 28, yw grant at ffioedd, neu, yn achos grant o dan reoliad 29 neu 30, yw benthyciad at ffioedd.".

24. Yn rheoliad 18(8)(b) rhodder yn lle'r geiriau "y'i crybwyllir ym mharagraff 3 o Atodlen 1", y geiriau "fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1", a hepgorer y "neu" sy'n dod o flaen yr is-baragraff hwnnw.

25. Ar ôl rheoliad 18(8)(b) mewnosoder—

"(c) pan fydd gwladwriaeth y mae'r myfyriwr yn wladolyn ohoni yn ymaelodi â'r Gymuned Ewropeaidd os yw'r myfyriwr wedi preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy'r cyfnod o dair blynedd sy'n union o flaen diwrnod cyntaf blwyddyn gyntaf y cwrs academaidd;

(ch) pan fydd y myfyriwr yn caffael yr hawl i breswylio'n barhaol (fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1);

(d) pan fydd y myfyriwr yn dod yn berson a ddisgrifir ym mharagraff 6(1)(a) o Atodlen 1; neu

(dd) pan fydd y myfyriwr yn dod yn blentyn i wladolyn Swisaidd.".";

26. Yn rheoliad 30(2) ar ôl "1992" mewnosoder y geiriau ", neu os ymdrinnir ag ef fel rhywun sy'n atebol i wneud taliadau o ran annedd a ragnodwyd gan reoliadau a wnaed o dan adran 130(2) o'r Ddeddf honno".

27. Yn rheoliad 30(5)(c), ar ôl "£26,500," mewnosoder "neu os yw'r myfyriwr pan fydd yn gwneud cais am y grant yn dewis peidio â rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i gyfrifo incwm yr aelwyd,".

28. Yn rheoliad 30(6)(ch) yn lle'r gair "cynhaliaeth" rhodder y geiriau "cymorth arbennig".

29. Yn rheoliad 31(3) rhodder yn lle'r geiriau "os paragraff 7 yw'r unig baragraff o baragraffau 1 i 8 o Atodlen 1 y mae'r myfyriwr yn syrthio odano", y geiriau "os paragraff 9 yw'r unig baragraff yn Rhan 2 o Atodlen 1 y mae'r myfyriwr yn dod i mewn iddo".

30. Yn rheoliad 39(2)(b) rhodder yn lle'r geiriau "fel y crybwyllir ym mharagraff 3 o Atodlen 1", "fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1".

31. Ar ôl rheoliad 39(2)(b) mewnosoder—

"(c) pan fydd gwladwriaeth y mae'r myfyriwr yn wladolyn ohoni yn ymaelodi â'r Gymuned Ewropeaidd os yw'r myfyriwr wedi preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy'r cyfnod o dair blynedd sy'n union o flaen diwrnod cyntaf blwyddyn gyntaf y cwrs academaidd;

(ch) pan fydd y myfyriwr yn caffael yr hawl i breswylio'n barhaol (fel y'i diffinnir yn Rhan 1 o Atodlen 1);